Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Tudno**
**Rhodfa'r Drindod**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 2SJ**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Tudno wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau darllen ac ysgrifennu Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith

Cynnydd da iawn o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad.

Diffinnir yr ysgol fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf, ond gyda defnydd sylweddol o’r Gymraeg. O ganlyniad, er Medi 2014, nid yw’r ysgol wedi asesu medrau Cymraeg mamiaith unrhyw ddisgyblion.

Mae proffil uchel i’r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol, ac mae pob un o’r staff yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae athrawon wedi rhoi cynllun gwaith cynhwysfawr ar waith ar gyfer Cymraeg ail iaith. Mae’n sicrhau dull cyson a chynlluniedig ar gyfer codi safonau ym mhob dosbarth ac yn sicrhau parhad a dilyniant o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg, ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i weithgareddau sy’n cyflwyno ac yn atgyfnerthu geiriau ac ymadroddion newydd yn Gymraeg. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau estynedig trwy amrywiaeth o destunau. Mae safonau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn Gymraeg ar draws pob maes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth flaenorol i ddarllen, ynganu a gwneud synnwyr o eiriau newydd. Mae safon darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn darllen llyfrau Cymraeg yn rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn deall ac ymateb i destunau sy’n cynnwys ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr cymhleth. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n hyderus ar draws y cwricwlwm, gan gynhyrchu darnau estynedig o wybodaeth ffeithiol a gwaith creadigol yn annibynnol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau defnyddio amrywiaeth o ymadroddion a phatrymau brawddeg cymhleth yn gywir iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau Cymraeg ail iaith disgyblion yn uchel, ar y cyfan.

### Argymhelliad 2: Codi safonau ysgrifennu Saesneg ar draws yr ysgol

Cynnydd da iawn o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, ac mae safonau mewn ysgrifennu Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad craidd.

Mae'r ysgol wedi rhoi cwricwlwm diwygiedig ar waith sy'n nodi ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau a meysydd dysgu eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o atalnodi a sillafu sylfaenol, ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio atalnodi mwy cymhleth, fel dyfynodau, yn gywir. Defnyddiant ystod addas o eirfa a chysyllteiriau, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu disgrifiadau diddorol a chreadigol. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau estynedig o waith yn hyderus ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddefnyddio amrywiaeth o *genres* ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn hanes, daearyddiaeth a gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n effeithiol ac yn deall sut i ddefnyddio gwahanol arddulliau ysgrifennu yn eu gwaith testun. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa a mynegiadau estynedig ac yn amrywio brawddegau'n briodol. Mae eu hysgrifennu'n aml yn ddiddorol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn aeddfed i wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfarwyddiadau neu adroddiadau manwl yn ystod gweithgareddau ymchwiliol.

At ei gilydd, mae ansawdd y ddarpariaeth yn sicrhau bod safonau ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda, ac yn gweddu i safon y gwaith yn llyfrau Saesneg disgyblion yn dda.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod medrau rhifedd a TGCh yn cael eu datblygu'n fwriadus yng nghyfnod allweddol 2**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae athrawon wedi diwygio eu cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn effeithiol.

Wrth gynllunio ar gyfer rhifedd, mae pwyslais cryf ar ddatblygu gwybodaeth disgyblion am ffeithiau rhif ac ar nodi a defnyddio perthnasoedd rhif. Mae llyfrau disgyblion yn dangos ystod dda o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol. Mae'r tasgau a osodir yn gwneud cysylltiadau rheolaidd ar draws y cwricwlwm, fel bod disgyblion yn gallu datblygu eu cysyniadau a'u medrau ymhellach trwy eu defnyddio i ddatrys problemau mewn cyd-destunau perthnasol. Mae'r cynllunio yn ddilyniadol, ac fe gaiff disgyblion dasgau cynyddol heriol sy'n gweddu i'w galluoedd yn briodol.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu profiadau o'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau i ddisgyblion leoli ac ystyried y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gefnogi eu tasgau. Rhoddir cyfleoedd buddiol iddynt ddefnyddio ystod gynyddol o offer ac adnoddau TGCh i chwilio, prosesu a chyfleu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau addas. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio cronfeydd data yn effeithiol i drefnu a dadansoddi gwybodaeth am nodweddion dillad chwaraeon. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu a chyfleu syniadau'n briodol trwy TGCh gyda synnwyr o ddiben a chynulleidfa.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod yr addysgu yn herio disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant pwrpasol ac arsylwi arfer dda sy'n canolbwyntio ar nodi a bodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y disgyblion mwy abl. O ganlyniad, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn sicrhau bod gweithgareddau dysgu'n cynnig her dda. Mae eu hymwybyddiaeth gynyddol o anghenion disgyblion mwy abl a thalentog wedi arwain at lefelau uchel o ymgysylltu â disgyblion. Mae'r ysgol wedi prynu adnoddau priodol i staff gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog, yn enwedig yn ystod gweithgareddau llythrennedd a rhifedd.

Mae athrawon yn darparu profiadau trefnus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol, ac yn hyrwyddo dysgu annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud dewisiadau gwybodus yn ystod tasgau ac yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda disgyblion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac yn dangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gweithio am gyfnodau estynedig, yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwneud penderfyniadau ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain fel eu bod yn cymhwyso eu medrau allweddol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o brosiectau celfyddydau creadigol gydag arlunwyr a cherddorion o Gymru, fel creu ac arddangos cerfluniau ohonyn nhw eu hunain. Mae gweithgareddau o'r fath yn herio bron pob un o'r disgyblion ac yn datblygu meddwl annibynnol cadarn. Mae Ysgol Tudno yn Ysgol Gynradd Greadigol Arweiniol ac mae'n cymryd rhan mewn sawl prosiect gydag ysgolion cynradd partner. Mae'r mentrau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau trwy ddefnyddio cyfryngau creadigol, fel celf a cherddoriaeth, mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd.

Mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ac mae hyn yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb i'r cynllun marcio yn effeithiol. Mae hyn yn eu galluogi i arfarnu eu gwaith a gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella. Ar draws yr ysgol, mae arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn annog disgyblion i feddwl am eu dysgu ac yn eu herio i fyfyrio ar sut gallant wella'u gwaith.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod gweithdrefnau asesu yn gadarn yng nghyfnod allweddol 2**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno system electronig i gofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r system yn effeithiol i nodi grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn dechrau defnyddio'r system yn bwrpasol i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n gweddu i anghenion disgyblion unigol. Mae athrawon yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau cymedroli a safoni i greu proffiliau asesu disgyblion defnyddiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cadarnhau cywirdeb eu barnau am safonau disgyblion.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data asesu yn effeithiol i ddwyn athrawon i gyfrif am y cynnydd a wna disgyblion. Gwnânt hyn trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd i nodi unrhyw ddisgyblion nad ydynt ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targedau. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio dadansoddiad o ddeilliannau profion darllen a rhifedd cenedlaethol yn effeithiol i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol a rheolaidd. Mae sylwadau ysgrifenedig bron pob un o'r athrawon yn cysylltu'n dda â'r amcanion dysgu ar gyfer tasgau penodol. Mae'r sylwadau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar yr hyn y mae disgyblion wedi ei wneud yn llwyddiannus ac yn awgrymu meysydd priodol iddynt eu gwella. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion wella eu gwaith i ymateb i adborth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw sylwadau bob amser yn rhoi digon o fanylion ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella'u gwaith.

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol mewn gwersi. Mae gan bron bob un o'r disgyblion dargedau unigol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trafod y rhain ac yn dangos sut y maent wedi eu cyflawni. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn creu eu meini prawf llwyddiant eu hunain mewn grwpiau ac fel unigolion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gyflawni'n dda mewn tasgau ac yn arfarnu eu cynnydd eu hunain yn gywir.

**Argymhelliad 6: Datblygu rôl strategol yr uwch dîm rheoli gan ganolbwyntio ar sefydlu trefniadau grymus ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae gan aelodau o'r uwch dîm rheoli rolau a chyfrifoldebau clir a diffiniedig. Maent yn cael datblygiad proffesiynol gwerthfawr i wella eu heffeithiolrwydd, er enghraifft i sicrhau dealltwriaeth well o ddata perfformiad. Mae llawer o'r uwch dîm rheoli wedi cael hyfforddiant penodol er mwyn datblygu eu medrau arwain ymhellach. Er enghraifft, mae'r dirprwy bennaeth a'r cydlynydd rhifedd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol a drefnwyd gan y consortiwm rhanbarthol. O ganlyniad, mae gweithdrefnau asesu ac olrhain wedi gwella ac mae'r modiwl penodol ar arsylwadau ystafell ddosbarth wedi cyfrannu at broses fonitro fwy trylwyr ar gyfer arfarnu addysgu a dysgu.

Mae rôl strategol yr uwch dîm rheoli wedi datblygu’n dda erbyn hyn. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion perthnasol am ddarpariaeth a safonau. Mae pob aelod o’r uwch dîm rheoli yn arwain tîm pwnc bach, sy’n cynnwys athrawon, staff cymorth a llywodraethwr. Mae’r timau hyn yn canolbwyntio’n dda ar wella darpariaeth, er enghraifft wrth ddatblygu cynlluniau gwaith cwricwlaidd cydlynus ac arfarnu eu heffaith ar safonau. Mae uwch arweinwyr yn craffu ar lyfrau ac yn cynnal arsylwadau gwersi yn amserol. Defnyddiant y rhain i ystyried ansawdd y ddarpariaeth a’i heffaith ar safonau yn ofalus. Maent yn galluogi tîm yr ysgol gyfan i ganolbwyntio’n bwrpasol ar roi blaenoriaethau gwella ar waith, fel argymhellion yr arolygiad craidd.

**Argymhelliad 7: Cryfhau rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant a herio’r ysgol am ei pherfformiad**

Cynnydd cryf o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rôl ac fe gânt hyfforddiant buddiol. Maent yn gynyddol ymwybodol o berfformiad yr ysgol mewn meysydd allweddol, er enghraifft presenoldeb a deilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Maent yn fwy hyderus wrth holi cwestiynau heriol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr ac yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol a pherthnasol i wneud penderfyniadau strategol; er enghraifft, wrth benodi staff, neu gynnig darpariaeth bellach i wella meysydd penodol fel rhifedd neu TGCh.

Mae gan y llywodraethwyr rôl glir ym mhroses hunanarfarnu’r ysgol erbyn hyn. Mae ymweliadau gan fwyafrif y llywodraethwyr, i fonitro gwersi a chraffu ar waith disgyblion, yn cryfhau eu dealltwriaeth o ansawdd y ddarpariaeth a’r safonau. Ar y cyd â’r uwch dîm rheoli, defnyddiant y wybodaeth a gasglwyd o’u hymweliadau yn effeithiol, gan gynnwys data perfformiad a thystiolaeth arall a gasglwyd yn y broses hunanarfarnu. Maent yn nodi cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella ac yn cyflwyno’r rhain yn glir mewn adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr.

Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn defnyddio tystiolaeth hunanarfarnu yn briodol i herio’r ysgol i wella mewn meysydd allweddol, fel codi safonau mewn Cymraeg ail iaith a rhifedd. Maent yn gosod camau gwella priodol, sy’n realistig ar y cyfan, ac yn canolbwyntio’n briodol ar wella safonau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro cynnydd yn ddigon da ar gerrig milltir priodol. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn addasu camau gweithredu a blaenoriaethau i fynd i’r afael ag unrhyw ddiffygion mewn cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddiant a nodwyd.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai’r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi’i wneud, a pharhau i fynd i’r afael â’r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.